RHAGLENNI GWAITH Y PWYLLGORAU CRAFFU
Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles

'Dwyn yr Adain Weithredol i gyfrif mewn perthynas â phob un o'r tair blaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor: Economi (Adeiladu economi gref); Pobl (Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb); Lleoedd (Creu cymdogaethau y mae pobl yn falch o fyw a gweithio ynddyn nhw).'

Mae pob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor yn gyfrifol am bennu ei raglen waith ei hun a chytuno arni, drwy nodi rhestr o themâu a phynciau sy'n berthnasol i gylch gorchwyl pob Pwyllgor Craffu. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Craffu, caiff rhaglen ymarferol a realistig wedi'i hamserlennu ei datblygu.

Dylai blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu rhoi rhesymeg eglur ynglŷn â pham y mae materion penodol wedi'u dewis. Dylen nhw ganolbwyntio ar ganlyniadau a sicrhau bod y dull craffu sydd wedi'i ddewis yn gweddu i'r pwnc a'r canlyniadau y gobeithir amdanyn nhw. Dylen nhw hefyd alinio rhaglenni craffu gyda threfniadau rheoli cyflawniad, hunan asesu a gwelliant y Cyngor.

Drwy gydol y flwyddyn, mae nifer o ffyrdd y mae modd cynnwys materion ychwanegol yn y Rhaglen Waith Craffu, ac mae modd i syniadau i'w cynnwys ddod o nifer o ffynonellau, fel:-

- Cynghorwyr unigol;
- Gwybodaeth monitro cyflawniad neu gyllideb;
- Adroddiadau arolygu;
- Atgyfeiriadau gan y Cyngor (fel Rhybuddion o Gynnig), y Cabinet/y Pwyllgor Archwilio neu bwyllgorau craffu eraill;
- Defnyddwyr y Gwasanaeth;
- Monitro gweithredu argymhellion sydd wedi'u gwneud gan y pwyllgor yn flaenorol; a
- Trigolion lleol.

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cabinet lunio blaenraglenni gwaith, ac mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cadw golwg ar eitemau neu bynciau sydd ar ddod a fydd o bosibl yn galluogi'r pwyllgorau craffu i chwarae rhan yn natblygu polisi ar ran y Cyngor, cyn iddo gael ei ystyried yn ffurfiol gan y Cabinet. Mae'n bwysig cofio bod elfen o hyblygrwydd i bob rhaglen waith unigol sy'n rhoi'r gallu i Bwyllgorau graffu ar faterion newydd/brys sy'n codi yn ystod y flwyddyn. Am y rheswm yma bydd y Rhaglenni Gwaith Craffu yn cael eu cyhoeddi am gyfnod o 6 mis a'u hadolygu bob chwarter.

PWYLLGOR CRAFFU – IECHYD A LLES					
Dyddiad/Amser	**Nod cyffredinol**	**Swyddog**	**Aelod o'r Cabinet**	**Gwahoddiad / Yn Bresennol**	**Craffu yn canolbwyntio ar...**
9 Gorffennaf 2019, 5pm Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach	• Rhaglen Waith y Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion			**Craffu a Her –** Aelodau'r Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles yn trafod y rhaglen waith ar gyfer 2019/2020.
	• Anghenion o ran Hyfforddiant	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion			Trafod a datblygu rhestr o ofynion hyfforddi ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles.
	• Gwaith Cyn Craffu ar Adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol	Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant			**Craffu a Her –** Ymgymryd â gwaith cyn craffu ar yr Adroddiad Blynyddol i ganfod a yw'n werthusiad cywir o gyflawniad yr Awdurdod Lleol.

	• Cyfarfod cychwynnol – Rhybudd o Gynnig	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu			Trafod a chytuno ar ffordd ymlaen cychwynnol mewn perthynas â'r Rhybuddion o Gynnig mewn perthynas ag Awtistiaeth a Chlefyd Niwronau Motor.
24 Medi 2019, 5pm, Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach	• Rhybuddion o Gynnig mewn perthynas ag Awtistiaeth	Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion	Y Cynghorydd G. Hopkins Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg		**Craffu a Her –** Symud y Rhybuddion o Gynnig mewn perthynas ag Awtistiaeth a Chlefyd Niwronau Motor yn eu blaenau yn rhan o Raglen Waith y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles. **Awtistiaeth** – Nodi beth yn rhagor y mae modd i'r Cyngor ei wneud i gefnogi'r rheini sy'n byw gydag Awtistiaeth.
	• Ymateb y Cabinet i'r argymhellion mewn perthynas â gwelyau i'r henoed bregus eu meddwl (EMI)	Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant	Y Cynghorydd G. Hopkins Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg		Trafod ymateb y Cabinet mewn perthynas ag argymhellion y Gweithgor ar gyfer Darparu Gwelyau Nyrsio i'r Henoed Bregus eu Meddwl yn RhCT.
	• Cais Trawsnewidiol ac Adolygiad	Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg	Y Cynghorydd G. Hopkins Aelod o'r		Trafod y gwaith sydd wedi'i wneud gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

	Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant	Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg		
	Adroddiad Diogelu Blynyddol (GWYBODAETH YN UNIG)				
	Adroddiad Cwynion Blynyddol (GWYBODAETH YN UNIG)				
21 Hydref 2019, 5pm Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach	• Adolygiad Chwarterol o'r Rhaglen Waith Craffu – Trosolwg a Chraffu	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion			• A yw'r Rhaglen Waith yn addas ac yn berthnasol i'r Cylch Gorchwyl? • A yw'r Rhaglen Waith yn dangos canlyniadau ac amcanion clir? • Aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rhoi sylwadau mewn perthynas â'r Rhaglen Waith.
	• Iechyd Meddwl (diweddariad gan y Grŵp Llywio Iechyd Meddwl.)	Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion Swyddog o MIND			• Dadansoddi pa gymorth sydd ar gael i bobl sy'n dioddef o broblemau Iechyd Meddwl yn y Fwrdeistref Sirol.
	• Rhybudd o Gynnig – Clefyd Niwronau Motor	Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion		**Gwahodd Swyddog o MIND**	**Clefyd Niwronau Motor** – Archwilio beth yw'r ffordd orau i'r Cyngor weithredu nodau Siarter Clefyd

					Niwronau Motor ar ôl ei mabwysiadu.
19 Tachwedd 2019, 5pm Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach	• Mynd i'r Afael ag Eiddo Gwag	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd			**Craffu a Her –** Adolygu cyflawniad y Cyngor wrth fynd i'r afael ag eiddo gwag ac asesu a yw wedi targedu'n weithredol cartrefi'r sector preifat sydd wedi bod yn wag ers amser hir.
	• Canolfannau yn y Gymuned	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd			**Craffu a Her** – trafod y gwaith sy'n cael ei wneud.
10 Rhagfyr 2019, 5pm, Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach	• Oedi wrth drosglwyddo gofal	Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion			**Craffu a Her –** Asesu cynnydd Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf mewn perthynas ag Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal ac adolygu gwaith Gwasanaethau Cymdeithasol RhCT.

Meysydd Eraill i'w harchwilio:-

Ailedrych ar gyfleuster a chontract Hope Rescue/llety cŵn

Craffu ar Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Atal Digartrefedd

Archwilio modelau tai newydd sy'n gysylltiedig â chynllun Tai yn Gyntaf

Craffu ar Adroddiad Archwilio Cymru ar Iechyd yr Amgylchedd

Dolenni ar gyfer adroddiadau i'w hymgorffori yn yr agenda?

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Cwm Taf

Adroddiad Cwynion Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol

Anghenion Hyfforddi:-

I'w hystyried yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Craffu cyntaf ym mis Gorffennaf

Gweithgorau Craffu Cyfredol:-